

Gweithgareddau

Scattergories

Manylion y
weithgaredd:



10munud



Am ddim



Tu fewn / Ar-lein/
Pellter Cymdeithasol tu fewn

- Dylai'r person sy'n arwain y gweithgaredd esbonio sut i chwarae: bydd gan bob rownd restr o gategorïau ac un llythyren. Bydd angen i bob chwaraewr gynnig ateb unigryw i'r categorïau sy'n cychwyn gyda'r llythyren y rownd.
- Er enghraifft, pe bai'r categori yn wledydd a'r llythyren yn A, gallai pobl ddweud yr Ariannin, Afghanistan, neu unrhyw wlad arall sy'n dechrau gydag A.
- Dylai pawb weithio gyda'i gilydd i lunio rhestr o gategorïau i'w defnyddio yn y gêm. Gallent gynnwys gwledydd, chwaraeon a bwydydd fel enghraifft.
- Dylai pawb ysgrifennu'r rhestr o gategorïau ar eu darn o bapur.
- Dylai un person ddewis llythyr ar hap i gychwyn y rownd gyntaf.
- Dylai'r person sy'n arwain y gêm rhoi cyfyngiad amser ar chwaraewyr i feddwl am ei hatebion. Gallwch chi ddewis yr amser a chaniateir, er byddwn yn cynghori bod gêm gyda 12 categori yn cymryd tua dau funud.
- Dylai pawb geisio cynnig ateb unigryw ar gyfer pob categori sy'n dechrau gyda'r llythyr a ddewiswyd. Nod y gêm yw cynnig atebion na fydd unrhyw un arall yn meddwl amdanynt sy'n dal i gyd-fynd â'r categori a'r llythyr.
- Unwaith y bydd yr amser ar ben, mae'n bryd sgorio'r atebion. Dylai un person ddarllen ei restr allan. Os oes gan unrhyw un arall yr un ateb dylent roi eu llaw i fyny – dim ond atebion unigryw sy'n sgorio pwynt.
- Dylai'r person nesaf ddarllen unrhyw atebion sy'n unigryw yn eu barn nhw, a dylai pobl roi eu dwylo i fyny os oes ganddyn nhw'r un ateb. Dylai pawb ddal ati nes bod pawb wedi gwirio unrhyw atebion sy'n ymddangos yn unigryw.
- Ar ôl i'r rownd gael ei sgorio, dylai rhywun ddewis llythyr arall, a dylai pawb chwarae eto.
- Daliwch i chwarae nes i chi redeg allan o amser (neu lythyrau!)

FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU

Canolfan CFFI, Llanelwedd, Builth Wells, LD2 3NJ
01982 553502 information@yfc-wales.org.uk www.yfc.wales

